# CYLCHLYTHYR DIWEDD Y FLWYDDYN

*Rhagfyr 2025* — *Cyfrol 1*

## PRIF NEWYDDION

### LANSIO GWEFAN




Ar ddechrau mis Mehefin, aeth gwefan Eirianfa yn fyw! Diolch i'r rhai a ddaeth i brofi'r wefan a rhoi adborth cyn iddi gael ei lansio.

Os nad ydych chi wedi ymweld â'n gwefan newydd eto, chwiliwch am (cyfeiriad y wefan); ac os oes gennych chi unrhyw adborth neu awgrymiadau, anfonwch e-bost at (cyfeiriad e-bost).

### CYLLID GRANT

Eleni, derbyniwyd grant gan Gronfa Fferm Wynt Brenig sydd wedi cael ei ddefnyddio i inswleiddio'r ganolfan. Gwnaed y gwaith hwn ddechrau'r haf.

Mi wnaeth Cronfa Deddf Eglwysi Cymru hefyd roi arian i ni ei ddefnyddio i brynu seddi awyr agored gan Cynnyrch Coed Meifod yn Ninbych. Allwn ni ddim aros i'n hardal awyr agored gael ei chwblhau, a bydd yn barod i'w defnyddio yn 2026!

### AILADDURNO AC ADNEWYDDU

Diolch i rodd Screwfix Foundation ar ddiwedd 2024, mae'r ganolfan wedi derbyn paent newydd dros yr haf. Gweithiodd ein gofalwr Paul yn galed yn ailaddurno'r holl ystafelloedd a sicrhau bod y lloriau'n cael eu gadael yn sgleiniog hefyd! Diolch i Beth yn Denbigh Screwfix, sydd i'w gweld gyda Paul isod.



## CRYNODEB BLYNYDDOL O GANOLFAN EIRIANFA




Rydyn ni'n falch o rannu y bu'n flwyddyn brysur arall i Ganolfan Eirianfa. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau yn y ganolfan, gan gynnwys partïon pen-blwydd, priodasau, ffeiriau, diwrnodau rhannu gwybodaeth, grwpiau cymdeithasol a hobïau, sesiynau rhoi gwaed, gwasanaethau eglwys, a boreau coffi – mae'r rhestr yn ddiddiwedd!

Yn gyntaf, rydyn ni am ddiolch i bawb am ymdopi ag unrhyw drafferthion a achoswyd gan ein cyfnod byr o fod ynghau dros yr haf. Oherwydd digwyddiad ar ddechrau'r flwyddyn, mi wnaethon ni gau am ychydig wythnosau ym mis Awst er mwyn gwneud gwaith hanfodol i flaen yr adeilad a thu mewn i MR1. Agorwyd y ganolfan yn gynt na'r disgwyl diolch i B&W Builders (Y Rhyl) a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith adnewyddu; deliwyd â'r drysau a'r gwaith trydanol gan Gordon Overthrow (Y Rhyl) ac EG Morris (Dinbych).

Cafodd yr ardal y tu allan i'r ganolfan rywfaint o ofal yn ystod y gwanwyn hefyd diolch i wirfoddolwyr o Chwarel Breedon, Dinbych. Gwnaed y gwaith clirio fel rhan o weithgareddau cymunedol y criw, ac mi wnaeth Thorncliffe, yn garedig, ddarparu sgip. Gobeithiwn y bydd yr ardal yn barod i'w mwynhau unwaith y daw dyddiau cynhesach a brafiach yn 2026.

Yn 2025, croesawyd grwpiau newydd, sef Eleni Cymru a'r Grace Church Ladies Fellowship, fel ymwelwyr rheolaidd â'r ganolfan. Mae tri ymddiriedolwr newydd hefyd wedi ymuno â'r bwrdd ac maen nhw'n cynrychioli ein grwpiau rheolaidd: Atgofion, Côr Cymuned Dinbych, ac Urdd Merched Eglwys Dinbych.

Manteisiwn ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bwcio ac ymweld â'r ganolfan drwy gydol 2025. Mae eich help a'ch cefnogaeth wedi sicrhau bod y ganolfan yn parhau i fod yn ganolfan ffyniannus i'r gymuned leol.

Byddai'n braf gweld lluniau o'ch digwyddiadau a byddwn yn hapus (gyda'ch caniatâd) i'w rhannu ar ein tudalen Facebook. Tagiwch ni yn eich postiadau gan ddefnyddio @CanolfanEirianfaCentre.

Rhaid rhoi diolch arbennig hefyd i'n gwirfoddolwyr gwych yn Oergell Gymunedol Eirianfa. Maen nhw'n gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod yr oergell yn llawn ac wedi'i staffio ar foreau Llun ac Iau – diolch i chi i gyd.

**Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!**

Cadwch lygad ar yr holl newyddion diweddaraf o Ganolfan Eirianfa drwy gydol y flwyddyn ar ein gwefan neu dilynwch ni ar Facebook
www.eirianfa.org / @CanolfanEirianfaCentre